

Cwestiynau Cyffredin Pontio

** Gall yr holl wybodaeth isod newid yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

Beth sydd yn digwydd ar ddiwrnod cyntaf fy mhlentyn?

Bydd yr holl ddisgyblion newydd yn ymgynnull yn y Theatr neu'r Gampfa ar y bore cyntaf. Bydd Mr Rudge, Rheolwr Cynnydd, yno i groesawu'r disgyblion. Bydd digon o staff o flaen yr ysgol i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 i fynd i'r man cywir. O yma bydd yr athrawon dosbarth yn eu tywys i'w hystafell ddosbarth, dyma'r amser y bydd y disgyblion yn cyfarfod eu cyfoedion ac yn casglu eu hamserlenni. Bydd gwersi yn cychwyn yn hwyrach yn y dydd.

A fydd fy mhlentyn angen gwisg Addysg Gorfforol ar y diwrnod cyntaf?

Na - Os bydd unrhyw wersi AG ar y diwrnod cyntaf ni fydd angen newid i wisg AG.

Pa wisg ysgol fydd angen i fy mhlentyn wisgo ar y diwrnod cyntaf?

Mae gwisg Ysgol Llanfyllin ar gael gan ein cyflenwyr gwisg ysgol Constructiv Clothing neu School Shop Direct. Mae'r wisg ysgol yn cynnwys siwmpwr ysgol, crys gwyn gyda thei ysgol a throwsus neu sgert ddu. Dylai esgidiau lledr du gael eu gwisgo i'r ysgol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar: <https://llanfyllin.powys.sch.uk/wp-content/uploads/2020/10/Uniform-Policy-2020-YLL.pdf>

A ellir prynu locer yn yr ysgol?

Gellir prynu locer yn ystod yr wythnos gyntaf yn yr ysgol. Bydd mwy o wybodaeth ar gael ym mis Medi.

Pa ddarpariaeth cinio sydd ar gael i fy mhlentyn?

Bydd y disgyblion yn gallu defnyddio cyfleusterau'r ffreutur i brynu cinio poeth neu oer neu gallant ddod â'u pecyn bwyd eu hunain. Bydd disgyblion yn talu am eu cinio gydag ôl bawd neu gyfrif rif, trefnir y rhain ar y diwrnod cyntaf. Os bydd unrhyw broblemau gyda hyn peidiwch â phoeni bydd eich plentyn bob amser yn cael cyfle i gael bwyd.

Sut mae talu am giniawau ysgol fy mhlentyn?

Bydd talu am giniawau ysgol yn dilyn yr un drefn â'r ysgolion cynradd, gan ddefnyddio "Parent Pay". Defnyddir y system hon hefyd i dalu am dripiâu ysgol. Bydd disgyblion sydd yn derbyn pryddau ysgol am ddim yn parhau i wneud hynny. Llwythir y swm a ddyrennir yn ddyddiol i'w cyfrif. Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â "Parent Pay" yna os gwelwch yn dda cysylltwch â swyddfa'r ysgol neu Mrs Sarah Hunter (Rheolwr Busnes).

Beth fydd fy mhlentyn angen ar ei ddiwrnod cyntaf?

Bydd angen i'ch plentyn ddod â chas pensiliau, dylai hwn gynnwys: beiro, pensiliau, rhwbiwr, miniwr, ffon fesur, offer geometreg mathemateg a chyfrifiannell wyddonol.



A yw fy mhlentyn yn cael mynd â ffôn symudol i'r ysgol?

Caniateir ffonau symudol yn yr ysgol, fodd bynnag rhaid i ddisgyblion ddiffodd eu ffonau symudol i'w cadw yn eu bagiau. Os bydd disgybl yn dod â ffôn symudol i'r ysgol eu cyfrifoldeb hwy yw hyn ac ni fydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod. Os byddwch angen cysylltu â'ch plentyn, os gwelwch yn dda cysylltwch â swyddfa'r ysgol a bydd y neges yn cael ei basio ymlaen i'ch plentyn.

Beth all fy mhlentyn wneud os yw'n gofidio neu'n poeni?

Anogir disgyblion i siarad ag unrhyw aelod o staff y maent yn gyfforddus â hwy wrth wneud hynny. Gall hwn fod yn Athro Dosbarth Cofrestru, Athro Dosbarth, Rheolwr Cynnydd, Y Ganolfan Teulu neu unrhyw aelod arall o staff yr ysgol. Esbonnir hyn i'r disgyblion yn ystod eu diwrnod cyntaf.

Beth os fydd fy mhlentyn yn colli rhywbeth yn yr ysgol?

Os gwelwch yn dda sicrhewch fod pob eitem o ddillad ac offer y mae eich plentyn yn dod gyda hwy i'r ysgol wedi ei labelu gydag enw. Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith i adael i ni wybod os bydd unrhyw beth ar goll.

Sut allaf i gysylltu â'r ysgol?

Os gwelwch yn dda ffoniwch yr ysgol ar 01691 648391 neu anfonwch e-bost i office@llanfyllin.powys.sch.uk

Os oes gennyf bryderon am fy mhlentyn?

Os gwelwch yn dda cysylltwch â Rheolwr Cynnydd eich plentyn, Mr Rudge. Am unrhyw faterion presenoldeb cysylltwch â swyddog presenoldeb yr ysgol.

Beth os yw fy mhlentyn yn teimlo'n sâl?

Os fydd eich plentyn yn teimlo'n sâl, bydd angen rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith. Ni ddylai disgyblion gysylltu â rhieni yn uniongyrchol oherwydd salwch.

Sut mae fy mhlentyn wedi'i cael ei setio?

Bydd eich plentyn yn cael ei addysgu yn ei grŵp dosbarth cofrestru. Yn ystod yr wyth wythnos gyntaf y bydd eich plentyn yn Ysgol Llanfyllin bydd yr adrannau Mathemateg a Saesneg yn cwblhau asesiadau (gan gymryd i ystyriaeth data CA2, CATS ayyb). Yna yn ystod yr ail hanner tymor bydd dosbarthiadau Mathemateg a Saesneg yn cael eu gosod.

Sut mae penderfynu ar grwpiau tiwtoriaid?

Bydd eich plentyn yn cael ei leoli gydag o leiaf un ffrind a disgyblion o ysgolion cynradd eraill.





**YSGOL
LLANFYLLIN**

Pryd alla' i ymweld â'r ysgol?

O dan yr amgylchiadau presennol mae'n annhebygol y bydd modd caniatáu i chi ymweld â'r ysgol cyn mis Medi. Anfonir rhith-daith ysgol i ysgolion cynradd, a fydd yn cael ei ddsbarthu i'r holl ddisgyblion newydd. Hefyd yn y dyfodol agos gellir cyfarfod â staff allweddol drwy gyfarfod rhithwir Microsoft Teams. Ym mis Medi gobeithiwn gynnal noson groesawu rhieni, cyfle i chi gyfarfod ag athro dosbarth cofrestru eich plentyn, Cydlynnydd ADY a'r Rheolwr Cynnydd i drafod sut mae'ch plentyn yn ymgartrefu. Cynhelir Noson Rieni ym mis Tachwedd.

Sut fydd fy mhlentyn yn ffeindio ei ffordd o gwmpas yr ysgol?

Ar ddiwrnod cyntaf eich plentyn, bydd gweithgareddau yn cael eu cwblhau yn ystod amser tiwtor a fydd yn cynorthwyo eich plentyn i ffeindio'i ffordd o gwmpas yr ysgol. Bydd athrawon a myfyrwyr hefyd ar gael i helpu i arwain dosbarth eich plentyn o gwmpas yr ysgol. Hefyd mae map o'r ysgol yn cael ei gynnwys yn nyddiadur eich plentyn.

Beth yw dyddiadur ysgol?

Defnyddir y dyddiadur fel cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref. Dylid ei ddefnyddio i gofnodi gwaith cartref a gall rhieni/gofalwyr ei ddefnyddio i anfon negeseuon i athro dosbarth cofrestru eu plentyn. Mae'n bosib y bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu drwy ap rhieni, ceir mwy o fanylion am hyn ym mis Medi.

Faint o'r gloch mae ysgol yn dechrau a gorffen?

Mae'r Ysgol yn dechrau am 8:50 yb ac yn gorffen am 3:25yp.

Ble byddaf i'n dod o hyd i ddyddiadau a gwybodaeth bwysig?

Gellir dod o hyd i ddyddiadau a gwybodaeth bwysig ar wefan yr ysgol neu ar dudalennau Facebook a Twitter yr ysgol.

Sut fydd fy mhlentyn yn gwybod lle i fynd i ddal y bws i fynd adre?

Mae'r bysiau wedi eu lleoli ar safle'r ysgol heb fod ymhell o gatiâu prif fynedfa'r ysgol. Bydd staff o Ysgol Llanfyllin ar ddyletswydd i gefnogi unrhyw ddisgyblion sydd yn ansicr am ddod o hyd i'r bws cywir i gael mynd adre. Yn ystod y bythefnos gyntaf, bydd disgyblion blwyddyn 7 yn cael mynediad â blaenoriaeth i'r bysiau i sicrhau eu bod yn mynd adre yn ddiogel.

Sut alla' i baratoi fy mhlentyn ar gyfer ysgol uwchradd?

Gall symud i ysgol uwchradd fod yn amser brawychus i blant yn ogystal â'i rhieni. Un o'r ffyrdd allweddol o baratoi'ch plentyn ar gyfer y trosglwyddo yw datblygu ei sgiliau annibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys annog eich plentyn i gasglu a phacio ei offer ei hunan yn barod ar gyfer mynd i'r ysgol neu weithgareddau eraill, rheoli amser ac arian, gofalu am ei eiddo a datblygu strategaeth i'w ddefnyddio os aiff rhywbeth o'i le.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y pontio, os gwelwch yn dda anfonwch e-bost at:

rtr@llanfyllin.powys.sch.uk neu office@llanfyllin.powys.sch.uk

